

BENDITH Y NADOLIG

Gweddiwn:

O Dduw ein Tad, cynorthwya ni i'n paratoi ein hunain ar gyfer dyfodiad dy Fab ein Harglwydd Iesu Grist i'n byd yn faban bach. Planna ynom ysbryd rhyfeddu yn y newyddion da o lawenydd mawr gan roddi ein diolch a'n clod i ti. Amen.

Emyn: 441 – *Wele, cawsom y Meseia*

Cyd-weddiö Gweddi'r Arglwydd.

Llefarydd:

Unwaith eto, rydym yn agosáu at y Nadolig, ac yn ôl ein harfer, byddwn fel eglwysi yn mwynhau gwasanaethau, pasiantau, canu carolau a the parti i'r plant! A rhwng prysurdeb crefyddol a rhuthr gwneud popeth arall, y mae'n hawdd iawn colli golwg ar wir ystyr yr ŵyl a throï'n glust fyddar i neges y Nadolig. Ond nid oes rhaid i hynny ddigwydd oherwydd y mae gennym gofnod hyfryd iawn i'r hyn a ddigwyddodd ym Methlehem Jwdea a'r modd i'r doethion a'r bugeiliaid ymateb i'r newyddion rhyfedd fod Duw wedi ymweld â'n byd yn faban bach. Ond cyn atgoffa'n gilydd o'r digwyddiad syfrdanol hwn, fe arhoswn gyda'r disgwyl mawr a fu yn Israel am y Meseia - disgwyl oedd yn mynd yn ôl canrifoedd yn hanes y genedl Iddewig.

Mae'n anodd i ni heddiw amgyffred disgwyliad pobl Israel am y Meseia, a'r modd y parhaodd y dyhead hwn mor fyw am ganrifoedd lawer. Cenedl dan ormes cenhedloedd pobl eraill fu Israel am y rhan fwyaf o'i hanes. Gormeswyd hi gan yr Eifftiaid, y Babiloniaid, y Groegiaid a'r Rhufeiniaid ond, er hynny, ni ddifoddwyd gobaith y genedl fechan hon, ac fe adlewyrchwyd hynny yn ei ffydd yn Nuw, a'r gobaith sicr y byddai ryw ddydd yn anfon y Meseia i'w gwaredu o afael y gelynyon.

Erbyn cyfnod Iesu Grist, roedd y gobraith hwn wedi gwanhau yn fawr iawn, a bellach, ychydig oedd y ffyddloniaid oedd yn dal i ddisgwyl yn weddïgar am y Meseia. Pobl yn glynu wrth yr hen addewid ac a ddaliodd straen y disgwyl hir oedd y rhain. Eneidiau prin a gwerthfawr oeddynt, ac yn eu plith yr oedd Mair a Joseff, a hen wŷr o'r enw Simeon ac Anna'r broffwydes. Byddai'r rhain yn cael gweld y Meseia drostynt eu hunain. Ni chafodd proffwydi'r Hen Destament y fraint hon, ond fel y dywed yr emynydd,

*Darfu Moses a'r proffwydi
Ddweud amdano cyn ei ddod.*

Mae geiriau'r proffwydi yn rhan o'n Nadolig bob blwyddyn, fel y clywn yn ein darlleniad nesaf o'r Hen Destament.

Darlleniad: Eiseia 9: 2,6,7

Emyn: 432 – *O tyred di, Emanwêl*

Gweddïwn:

O Dduw ein Tad nefol a sanctaidd, diolchwn i ti am garolau'r geni, ac am y garol hyfryd a gawsom ei chanu, '*O tyred di Emanwêl*' Rhyfeddwn, ein Tad, mor hir y bu'r dyhead sanctaidd am ddyfodiad y Meseia yng nghalonau saint yr Hen Destament, a'r modd i ti, yng nghyflawnder yr amser, wireddu eu breuddwydion a'u gobeithion. Diolchwn i ti am gynnal eu ffydd trwy galedi eu hoes, ac am saint yr oesoedd hyd heddiw sy'n dal i obeithio ynot ti.

O Arglwydd, edrych arnom ninnau hefyd fel plant y cadw mawr, ac ar drothwy'r Nadolig, dyfnha ein ffydd a'n llawenydd wrth inni ymbaratoi i ddatlu genedigaeth dy Fab Iesu.

*O faban bach, O faban mwyn,
mor brydferth yw dy gariad pur:
rho inni fflam dy gariad di
yn danbaid lewyrch ynom ni.*

Bendigwn dy enw am bawb sy'n adlewyrchu dy gariad yn eu bywydau ac yn esmwytháu beichiau eu cyd-ddynion. Rho sêl dy fendith ar eu gwaith y Nadolig hwn, ac yn arbennig y rhai sy'n cysuro'r tlawd a'r difreintiedig yn ein cymdeithas. O Dad, diolchwn am eu hymroddiad, a thrwy nerth dy ras, gwna ninnau yn gyfryngau bendith i'n hanwyliaid, ein cyfeillion, ein cydnabod, a phawb arall y deunw ar eu traws.

*Ehanga 'mryd a gwared fi
rhag culni o bob rhyw,
rho inni weld pob mab i ti
yn frawd i mi, O Dduw.*

Yn dy Eglwys, taena rwyd dy gariad drosom yn ystod yr ŵyl sanctaidd hon. Cadw ni rhag drwg ac ymgeledda ni yn heddd dy gariad. Gwarchod ni fel teuluoedd, ac arwain ni i fyfyrion ymhellach yn dy Air ac i ymateb yn ddiwyll ac yn llawen i'r neges dy fod ti yn Dduw Immanuel - yn Dduw gyda ni yn Iesu Grist. Ac iddo ef, ein Ceidwad bendigedig y byddo'r clod a'r gogoniant, yn awr, a hyd byth.

Emyn: 440 – *Dyma'r dydd i gyd-foliannu*

Darlleniad: Luc 2: 1-7
Luc 2: 8-20

Emyn: 468 – *Tua Bethlem dref*

Llefarydd:

Y mae genedigaeth pob baban bach, gan amlaf, yn destun llawenydd i'r fam a'r tad ac i'r teulu a ffrindiau, ond y mae genedigaeth Iesu Grist yn destun llawenydd i deulu'r ffydd ymhob man, ac i bawb sy'n ymateb yn ddiolchgar ac o'r galon i neges yr Efengyl. Clywsom ddweud mai plentyn newyddion da yw llawenydd, ac mor wir yw hynny. Y mae newyddion drwg yn achosi dagrau ac anobaith ond y mae newyddion da yn creu llawenydd a gobaith newydd. Wel, onid felly genedigaeth Mab Duw yn faban bach?

Mae'r preseb lle y rhoddwyd y baban Iesu wedi diflannu yn niwloedd amser, ond gall pawb ohonom droi'n calon yn breseb ac yn fan croeso i'r baban a anwyd gynt ym Methlehem Jwdea.

*Tyred Grist a chreu Nadolig
yn fy nghalon dlodaidd i.
tro fy mhreseb innau'n nefoedd,
y mae'n nefoedd lle rwyf ti.*

Llefarydd:

Ond nid '*baban bach*' yn unig a wêl yr emynydd yn y crud ond '*Ceidwad mawr*'. Onid yw'r gair hwn yn gwbl allweddol yn stori'r Nadolig? Mae'n air sydd yn ein hatgoffa fod ein hiachawdwriaeth a'n llawenydd ynghlwm wrth berson yr Arglwydd Iesu Grist, ac ynghlwm, nid yn unig wrth ei grud yn faban bach, ond wrth ei groes ar Galfaria. Tybed a fyddai gwell croeso iddo heddiw? Na, yn gymysg â chanu nefolaidd yr angylion a sw'n clychau'r Nadolig, fe glywir o hyd lef dioddefus y diniwed a chri anobaith pobl o dan iau caethiwed. Y mae'r cryf heddiw fel ag erioed yn sathru ac yn gormesu, a thra bydd hyn yn digwydd, bydd yr addfwyn yn dioddef a'r diniwed yn gwaedu. Ni allwn osgoi'r gwirionedd trist fod hyn oll yn diraddio Duw a'r hyn a wnaeth drosom yn Iesu Grist. Er hynny, daliwn ati i gyhoeddi mai ef yw Ceidwad ein bywyd ac unig obaith ein byd. Deuwn â'n myfyrdod i ben gyda'r hen bennill;

*Wrth dderbyn ein hanrhegion
Ar fore dydd Nadolig,
O cofiwn anrheg Duw i'r byd
Y baban bendigedig!*

Emyn: 439 – *Peraidd ganodd sêr y bore*

Y Fendith.

Doed dy fendith, ein Tad nefol, ar ein teuluoedd y Nadolig hwn, ac arwain ni i Fethlehem i weld yr hyn a wnaethpwyd. A boed dy fendith ar holl deuluoedd y fro hon.

Boed pob aelwyd dan dy wenau,
a phob teulu yn deulu Duw.

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda ni oll. Amen.